Addewid Plismona

Bydd Gwasanaeth yr Heddlu yng Nghymru a Lloegr yn cefnogi dinasyddion sy'n parchu'r gyfraith, a byddant yn erlid troseddwyr yn ddi-baid er mwyn eich diogelu chi, a diogelu'ch cymdogaethau rhag niwed.

Heddlu • Police
DYFED-POWYS
Diogelu ein Cymuned – Safeguarding our Community

Policing Pledge

The Police Service in England and Wales will support law abiding citizens and pursue criminals relentessly to keep you and your neighbourhoods safe from harm.

Byddwn :

1. Yn eich trin yn deg a chydag urddas a pharch ar bob achlysur, gan sicrhau bod gennych fynediad teg i'n gwasanaethau ar amserau rhesymol sy'n addas i chi.
2. Yn rhoi gwybodaeth i chi am y bobl yn eich Tîm Plismona Bro, am leoliad eu swyddfa, sut i gysylltu â nhw, a sut i weithio gyda nhw.
3. Yn sicrhau bod eich Tîm Plismona Bro a phatrolau eraill yr heddlu i'w gweld yn eich milltir sgwâr ar yr adegau pan fyddant yn gallu cael yr effaith fwyaf, ac ar yr amseroedd pan fydd eu hangen arnoch fwyaf. Byddwn yn sicrhau na chaiff eich tîm ei dynnu o'u gwaith yn eich cymdogaeth yn fwy nag sy'n hollol angenrheidiol. Byddant yn treulio o leiaf 80% o'u hamser yn mynd i'r afael, mewn ffordd weledol, â'ch blaenoriaethau chi yn eich cymdogaeth chi. Byddwn yn cyfyngu cymaint â phosibl ar nifer y newidiadau i'n staff.
4. Yn ymateb i bob neges a anfonir at eich Tîm Plismona Bro o fewn 24 awr, a lle bo angen, byddwn yn rhoi ymateb mwy manwl cyn gynted ag y gallwn.
5. Yn ceisio ateb galwadau 999 o fewn 10 eiliad, a mynd ar unwaith i achosion brys, gan roi syniad i chi o ba bryd y byddwn ni'n cyrraedd, gan eich cyrraedd chi'n ddiogel ac mor gyflym â phosibl. Mewn ardaloedd trefol, byddwn yn ceisio'ch cyrraedd mewn 15 munud, ac mewn 20 munud mewn ardaloedd gwledig.
6. Yn ateb pob galwad, sydd heb fod yn alwad frys, yn brydlon. Os bydd angen i swyddog fod yn bresennol, byddwn yn anfon patrôl, gan roi syniad i chi o ba bryd y byddwn yn cyrraedd, ac:
   - Os ydych chi'n agored i niwed, neu os ydych chi'n gofidio, byddwn yn ceisio'ch cyrraedd o fewn 60 munud.
   - Os ydych chi'n galw ynghylch mater rydyn ni, a'ch cymuned, wedi cytuno sy'n flaenoriaeth gymunedol (rhestr isod), ac os bydd angen inni fod yno, byddwn yn ceisio bod gyda chi mewn 60 munud.
   - Fel arall, ac os yw'n briodol, byddwn yn gwneud apwyntiad i'ch gweld chi o fewn 48 awr, ar adeg sy'n gyfleus i chi.
   - Os cytunir nad oes angen inni fod yn bresennol, byddwn yn rhoi cyngor i chi, yn ateb eich cwestiynau, a / neu'ch rhoi chi mewn cysylltiad â rhywun sy'n gallu helpu.
7. Yn trefnu cyfarfodydd cyhoeddus rheolaidd, ac o leiaf unwaith y mis, er mwyn cytuno ar eich blaenoriaethau, gan roi cyfle i chi, ac aelodau eraill eich cymuned, gwrdd â'ch tîm lleol. Bydd hyn yn cynnwys cyfleoedd fel cymorthfeydd, sesiynau cyfnewid gwybodaeth ar y stryd, ac ymweliadau gan orsafoedd symudol yr heddlu, a drefnir i ateb gofynion a galwadau lleol. Ceir manylion isod am eich trefniadau lleol.
8. Yn rhoi adroddiadau misol am y sefyllfa ddiweddaraf o ran cynnydd, troseddu lleol a materion plismona. Bydd hyn yn cynnwys darparu mapiau o droseddau, gwybodaeth am droseddau penodol a beth a ddigwyddodd i'r rheiny y daethpwyd â nhw gerbron y llysoedd, manylion am y camau y byddwn ni a'n partneriaid yn eu cymryd i wneud eich cymuned yn fwy diogel, a gwybodaeth am berfformiad eich heddlu.
9. Yn dod i gytundeb â chi, os ydych chi wedi dioddef trosedd, ynghylch pa mor aml yr hoffech inni eich hysbysu chi ynghylch unrhyw ddatblygiadau yn eich achos, ac am ba hyd yr hoffech inni gadw mewn cysylltiad â chi. Mae gennych hawl i gael eich hysbysu o leiaf unwaith y mis, ac am unrhyw gyfnod rhesymol, os dyna'ch dymuniad.
10. Yn cydnabod unrhyw anfodlonrwydd gyda'r gwasanaeth y byddwch wedi hysbysu ni amdano, o fewn 24 awr inni ddod i wybod amdano. Er mwyn ein helpu i ddatrys y mater yn llawn, byddwn yn trafod gyda chi sut y caiff y mater ei drin, rhoi cyfle ichi siarad yn bersonol â rhywun ynghylch eich pryderon, a dod i gytundeb â chi ynghylch beth a wneir i leddfu'ch pryderon, a pha mor gyflym y bydd hyn yn digwydd.

We will :

1. Always treat you fairly with dignity and respect ensuring you have fair access to our services at a time that is reasonable and suitable for you.
2. Provide you with information so you know who your dedicated Neighbourhood Policing Team is, where they are based, how to contact them and how to work with them.
3. Ensure your Neighbourhood Policing Team and other police patrols are visible and on your patch at times when they will be most effective and when you tell us you most need them. We will ensure your team are not taken away from neighbourhood business more than is absolutely necessary. They will spend at least 80% of their time visibly working in your neighbourhood, tackling your priorities. Staff turnover will be minimised.
4. Respond to every message directed to your Neighbourhood Policing Team within 24 hours and, where necessary, provide a more detailed response as soon as we can.
5. Aim to answer 999 calls within 10 seconds, deploying to emergencies immediately giving an estimated time of arrival, getting to you safely, and as quickly as possible. In urban areas, we will aim to get to you within 15 minutes and in rural areas within [20] minutes.
6. Answer all non-emergency calls promptly. If attendance is needed, send a patrol giving you an estimated time of arrival, and:
   - If you are vulnerable or upset aim to be with you within 60 minutes.
   - If you are calling about an issue that we have agreed with your community will be a neighbourhood priority (listed below) and attendance is required, we will aim to be with you within 60 minutes.
   - Alternatively, if appropriate, we will make an appointment to see you at a time that fits in with your life and within 48 hours.
   - If agreed that attendance is not necessary we will give you advice, answer your questions and / or put you in touch with someone who can help.
7. Arrange regular public meetings to agree your priorities, at least once a month, giving you a chance to meet your local team with other members of your community. These will include opportunities such as surgeries, street briefings and mobile police station visits which will be arranged to meet local needs and requirements. Your local arrangements can be found below.
8. Provide monthly updates on progress, and on local crime and policing issues. This will include the provision of crime maps, information on specific crimes and what happened to those brought to justice, details of what action we and our partners are taking to make your neighbourhood safer and information on how your force is performing.
9. If you have been a victim of crime agree with you how often you would like to be kept informed of progress in your case and for how long. You have the right to be kept informed at least every month if you wish and for as long as is reasonable.
10. Acknowledge any dissatisfaction with the service you have received within 24 hours of reporting it to us. To help us fully resolve the matter, discuss with you how it will be handled, give you an opportunity to talk in person to someone about your concerns and agree with you what will be done about them and how quickly.

Llofnod/Signed : ..... Cadeirydd - Awdurdod Heddlu
Chair of Police Authority

Dyddiad/Date : Rhagfyr/December 08 ..... Prif Gwnstabl/Chief Constable

Rydyn ni am wneud ein gorau drosoch chi, ond os na allwn gyflawni'n Haddewid i chi, byddwn wastad yn esbonio pam nad oedden ni'n gallu darparu'r safonau uchel y byddwn ni'n anelu atynt, ac y byddwch chi'n eu haeddu, ar yr achlysur dan sylw.

We want to do our best for you but if we fail to meet our pledge we will always explain why it has not been possible on that occasion to deliver the high standards to which we aspire and you deserve.